GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

I'W RYDDHAU AR UNWAITH/FOR IMMEDIATE RELEASE
Please scroll down for English

6 Gorffennaf 2010

Gardd Seren Wib yn agor yn Ysbyty Maelor Wrecsam

Mae datblygiad diweddaraf Apêl Seren Wib wedi agor yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

Ar ôl ariannu datblygiad y Ganolfan Wybodaeth Macmillan gyntaf yng Nghymru, bellach mae'r Apêl wedi cefnogi creu gardd i gleifion ochr wrth ochr â'r Ganolfan Wybodaeth.

Cafodd yr ardd hon ei dylunio i fod yn lle awyr agored tawel i gleifion canser, eu teuluoedd a'u gofalwyr wrth ymweld â'r Ysbyty neu'r Ganolfan Wybodaeth.

Cafodd yr ardd ei dylunio a'i hadeiladu trwy gydweithio rhwng myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr University, Jill Scorer yn astudio Celf a Dylunio ar gyfer Tirwedd a Colm Trevor yn astudio Celf Cymhwysol.

Er ei bod wedi'i lleoli yng nghanol safle'r Ysbyty cafodd ei dylunio'n ofalus i sicrhau preifatrwydd a manteisio ar ei lleoliad ar lan afon Gwenfro.

Mae llwybr o'r Ganolfan Wybodaeth yn mynd ar hyd yr afon gan orffen â gardd gron â seddau a phaneli gwydr addurnol sy'n dangos delweddau o Draphont Ddŵr Froncysyllte. Mae'r rhain yn barhad o un o'r themâu a osodwyd gan y gwaith celf yn y brif Uned Seren Wib, lle mae wal teils, balwstrad haearn a thapestrïau sy'n darlunio datblygiad tiroedd o amgylch Wrecsam gan adlewyrchu treftadaeth ddiwydiannol yr ardal.

Meddai Pam Wedley, rheolwr y Ganolfan Wybodaeth:

"Rydym wrth ein bodd ein bod bellach yn gallu cynnig yr ardal awyr agored hon i gleifion a'u teuluoedd.

“Wrth i’r planhigion sefydlu a dechrau llenwi’r lle bydd yn darparu ardal o’r neilltu lle gall cleifion eistedd, darllen trwy ein gwybodaeth neu sgwrsio ag aelod o’r tîm gwybodaeth. Ac rydym yn gobeithio y bydd y tywydd braf diweddar yn parhau fel ein bod yn gallu manteisio i’r eithaf ar yr ardal yn ystod gweddill yr haf.”

Meddai Mrs Nonna Woodward, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Apêl Seren Wib:

“Er y cafodd yr Apêl ei sefydlu i ddechrau i adeiladu Uned Seren Wib yn yr Ysbyty yn unig, mae'n amlwg bod y gymuned leol wedi cymryd at yr achos ac rydym yn dal i dderbyn rhoddion. Rwyf wrth fy modd ein bod yn gallu defnyddio’r rhain i ariannu datblygiadau ychwanegu a phrynu cyfarpar sy’n gwella gofal cleifion canser o’n rhanbarth.”

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion

Mae nifer o gwmnïau lleol wedi cyfrannu at adeiladu’r ardd ac yn garedig wedi cefnogi’r gwaith hwn trwy ostwng eu costau neu gynnig eu hamser am ddim a hoffwn ddiolch i Maelor Construction, Wrexham Concrete Designs, JWJ Electrical, AP Hughes Landscaping, Contas, Pearsons Glass a DMI Fabrications o Lerpwl, yn ogystal â’r unigolion sydd wedi cefnogi’r gwaith hwn.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**
Mrs Dawn Davies	**01745 534495**

6 July 2010

Shooting Star Garden opens at Wrexham Maelor Hospital

The latest development by the Shooting Star Appeal has opened at Wrexham Maelor Hospital.

After funding the development of the first Macmillan Information Centre in Wales, the Appeal has now supported the creation of a patients' garden alongside the Information Centre.

This garden is designed to be a tranquil outdoor space for cancer patients, their families and carers when visiting the Hospital or Information Centre.

The design and construction of the garden has been through a collaboration between Glyndŵr University students, Jill Scorer studying Art and Design for Landscape and Colm Trevor studying Applied Arts.

Although it is located in the middle of the Hospital site it has been carefully designed to ensure privacy and to take advantage of its location alongside the River Gwenfro.

A pathway from the Information Centre runs alongside the river, ending in a circular garden with seats and decorative glass panels which feature images of the Froncysyllte Aqueduct. These continue one of the themes set by the artworks in the main Shooting Star Unit, where a tiled wall, ironwork balustrade and tapestries illustrating the development of the lands around Wrexham reflect the area's industrial heritage.

Pam Wedley, the Information Centre manager, said:

"We are delighted that we can now offer patients and their families this outdoor area.

"As the plants get established and start to fill out it will provide a secluded area where patients can sit, read through our information or chat to a member of the information team. And hopefully the recent fine weather will continue so that we can make maximum use of the area for the rest of the summer."

Nonna Woodward, who chairs the Board of Trustees of the Shooting Star Appeal said:

"Although the Appeal was initially just set up to build the Shooting Star Unit at the Hospital, the local community clearly took the cause to their hearts and we still receive donations. I am delighted that we are able to use these to fund these additional developments and to purchase equipment that enhances the care of cancer patients from our region."

ENDS

Notes to editors

A number of local companies have contributed to the construction of the garden and kindly supported this work by reducing costs or offering their time for free and we would like to extend our thanks to Maelor Construction, Wrexham Concrete Designs, JWJ Electrical, AP Hughes Landscaping, Contas, Pearsons Glass and DMI Fabrications of Liverpool, as well as the individuals who have supported this work.

For further information please contact:

Mr Andy Scotson **01978 725130**
Mr Trystan Pritchard **01248 384938**
Mrs Dawn Davies **01745 534495**